**Ymgyrch Clystyrau Darganfod Castell-nedd Port Talbot**

**Ffurflen Gais a Chanllawiau i Glystyrau**

Mae 'galwad agored' ar waith gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n gwahodd darparwyr gweithgareddau, atyniadau, arweinwyr teithiau, darparwyr llety gwyliau (a gweithredwyr eraill sy'n darparu gwasanaethau i ymwelwyr â Chastell-nedd Port Talbot) i gyflwyno cynigion i ddarparu cyfres o brofiadau a gaiff eu hyrwyddo trwy ymgyrch farchnata Clystyrau Darganfod Castell-nedd Port Talbot.

Dim ond gweithredwyr twristiaeth sydd wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd Port Talbot, neu sydd â phrofiad o weithredu yn y sir, fydd yn gymwys i gyflwyno cais.

Derbyniodd Tîm Twristiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gyllid yn ddiweddar trwy Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) Croeso Cymru i gyflawni'r ymgyrch Clystyrau Darganfod (sylwch mai teitl dros dro yn unig ar yr ymgyrch yw hwn).

Cefnogir y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol trwy Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariannir trwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), a Llywodraeth Cymru.

Y canlynol yw nodau ac amcanion yr ymgyrch Clystyrau Darganfod:

## 1. Nodau ac Amcanion y Prosiect

Nod y prosiect yw codi proffil Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan i ymwelwyr trwy arddangos cynnyrch sy'n manteisio ar ein cryfderau ac yn cyd-fynd â brand Cymru.

Y canlynol yw amcanion y prosiect:

1. Darparu ymgyrch farchnata i 'newid delwedd' a denu marchnadoedd ymwelwyr allweddol i Gastell-nedd Port Talbot.
2. Ysgogi partneriaid yn y sector twristiaeth i weithio mewn partneriaeth i ddarparu cynnyrch mae modd ei neilltuo ymlaen llaw.
3. Darparu llwybr mwy uniongyrchol i'r farchnad ar gyfer cynnyrch twristiaeth Castell-nedd Port Talbot sy'n cyd-fynd â gofynion Rheoliadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## 2. Mecanweithiau Cyflawni Prosiectau

Pwrpas yr ymgyrch yw gweithio ar y cyd â gweithredwyr twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot i godi proffil yr ardal fel cyrchfan i ymwelwyr, herio delweddau negyddol yr ardal a chynyddu nifer yr ymweliadau dros nos.

Amcan Croeso Cymru wrth ddyfarnu cyllid yw creu cynnyrch y gellir ei neilltuo ymlaen llaw ledled Cymru sy'n hwyluso prynu gwyliau 'pendant' gan ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr tramor.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fydd rheolwyr y prosiect, ond rhan allweddol o gyflawni amcanion y prosiect fydd ffurfio cyfres o 'glystyrau cynnyrch' wedi’u harwain gan y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn darparu chwe math o brofiadau i ymwelwyr yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

Er mwyn bodloni gofynion Cymorth Gwladwriaethol, a chyn mynd ati i ddewis y clystyrau terfynol, cyhoeddir yr alwad agored hon sy'n chwilio am glystyrau o weithredwyr o'r sector preifat/gwirfoddol i gyflwyno cynigion i ddarparu'r profiadau y cytunwyd arnynt.

## 3. Profiadau

Cynlluniwyd y chwe phrofiad craidd i gyd-fynd â brand Cymru, Blwyddyn Darganfod Croeso Cymru 2019 a Blwyddyn Awyr Agored 2020. Cynllunnir y profiadau hefyd i gwmpasu cymoedd ac ardaloedd trefol Castell-nedd Port Talbot.

Nodwyd y profiadau canlynol i’w darparu yng nghais y prosiect.  Bydd angen i'r prosiectau a gynigir gan y Clystyrau ddangos eu bod yn cyd-fynd gymaint â phosibl â'r profiadau a ddisgrifir isod; fodd bynnag, gall clystyrau fireinio'r profiadau hyn ymhellach yn eu cais.

**Profiad Antur Awyr Agored y Cymoedd:** Bydd y clwstwr yn darparu gweithgareddau awyr agored ar hyd a lled ardaloedd Cymoedd y sir sy'n cwmpasu arlwy eiconig Gwlad y Sgydau ac yn cyflwyno profiadau heb eu darganfod yn ein dyffrynnoedd hardd.  Er enghraifft, gellir darparu gweithgareddau dringo creigiau, ceunenta, cyfeiriannu ac ati yn rhan o'r profiad hwn. Dylid cynnig llety hefyd fel rhan o'r clwstwr hwn.

**Lle i Feicio - Parc Fforest Afan:** Bydd y profiad hwn yn targedu pobl sydd eisoes yn feicwyr mynydd gan gynnig gwasanaethau llogi beiciau, teithiau tywys ar drywyddau lleol neu hyfforddiant gloywi sgiliau beicio mynydd iddynt er mwyn gwneud yn fawr o'u taith feicio ym Mharc Fforest Afan. Dylid cynnig llety hefyd fel rhan o'r clwstwr hwn.

**Parc Fforest Afan - Taith Antur Beicio Mynydd i Deuluoedd (Dechreuwyr):** Gwyliau beicio mynydd sy'n targedu dechreuwyr llwyr ac yn cynnig profiad i'r teulu cyfan. Dylai darparwyr yn y clwstwr hwn allu cynnig hyfforddiant i grwpiau a theithiau beicio tywysedig a gallai hynny gynnwys hyfforddiant a theithiau tywys arbenigol ar gyfer benywod yn unig. Dylai'r profiad hwn gynnwys dewisiadau llety hefyd.

**Port Talbot - Profiad 'Fel y Dur':** Profiad sy'n defnyddio'r gwaith dur eiconig fel cefnlen ar gyfer gweithgareddau awyr agored egnïol, a fydd hefyd yn herio delwedd Port Talbot fel cyrchfan i ymwelwyr. Gallai'r profiad gynnwys syrffio ar Draeth Aberafan, antur awyr agored fel padlfyrddio neu antur gwifrau uchel ym Mharc Margam. Dylai'r cais ganolbwyntio ar gyflawni heriau corfforol a gallai gynnwys y marchnadoedd triathlon, marathon neu ddigwyddiadau aml-gamp a ddatblygir gan drefnwyr digwyddiadau yn yr ardal. Dylai'r profiad hwn greu clwstwr â llety priodol sy'n addas i natur yr ystod o archebion sy'n debygol o godi, h.y. llety ar gyfer grwpiau, llety gwestai neu lety gwely a brecwast, er enghraifft.

**Profiad Dilyn Camre:** Bydd y profiad hwn yn hyrwyddo rhai o'r teithiau cerdded/trywyddau tywys neu hunandywys gorau yn ardaloedd Cymoedd, Dyffrynnoedd a Glannau Castell-nedd Port Talbot a bydd yn cynnwys llety a dewisiadau bwyd o safon fel rhan o'r arhosiad. Mae'r cynnyrch hwn yn canolbwyntio ar bobl sydd â diddordeb yn nhreftadaeth a thirlun yr ardal a byddai'n apelio at bobl sydd am gerdded/feicio ar y llwybrau a'r trywyddau a ddefnyddid gan eu hynafiaid neu gan enwogion Castell-nedd Port Talbot, fel Richard Burton. Dylai'r profiad hwn ddangos amrywiaeth o brofiadau yn enwedig yn ardal Cymoedd y sir. Dylai'r profiad hwn gynnwys dewisiadau llety hefyd.

**Taith Treftadaeth Parc Margam:** Dylai'r profiad hwn greu taith dreftadaeth dywysedig o safon uchel sy'n olrhain treftadaeth Parc Gwledig Margam, Eglwys Abaty Margam ac Amgueddfa Gerrig Margam. Dylai'r profiad ddarparu taith dywys neu daith ddehongli drochol sy'n addas ar gyfer marchnadoedd defnyddwyr a theithiau grŵp. Hefyd, gallai'r profiad gynnwys darparu te prynhawn neu ginio yn y parc ei hun. Mae darpariaeth Les/Lesiant yn datblygu ym Mharc Gwledig Margam hefyd, a gellid manteisio ar y farchnad 'ymwybyddiaeth ofalgar' sy'n datblygu drwy gynnig profiadau yoga/myfyrio/iechyd a lles; byddai modd adlewyrchu hynny yn y cynigion a gyflwynir.

## 4. Yr Ymgyrch

### 4.1 Marchnadoedd Targed

Mae'r marchnadoedd a dargedir gan yr ymgyrch hon yn cynnwys:

| Marchnad Darged | Profiadau sy'n apelio at y gynulleidfa hon |
|---|---|
| Pobl sy'n chwilio am antur a diwylliant a phobl sy'n chwilio am antur a golygfeydd trawiadol (parau ac unigolion 45 oed a throsodd) | • Profiad Cerdded Dilyn Camre<br>• Taith Dreftadaeth Parc Margam |
| Pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu (parau a grwpiau 18-35 oed) | • Profiad Antur Awyr Agored y Cymoedd<br>• Profiad Lle i Feicio yn Fforest Afan<br>• Profiad Fel y Dur |
| Teuluoedd egnïol sy'n chwilio am antur (rhieni 33-55 oed â phlant 7-15 oed) | • Profiad Antur Awyr Agored y Cymoedd<br>• Taith Antur Beicio Mynydd i Deuluoedd, Parc Fforest Afan<br>• Pecyn Lle i Feicio Fforest Afan<br>• Taith Dreftadaeth Parc Margam |
| Y farchnad cwmnïau coetsis | • Taith Dreftadaeth Parc Margam (â themâu wedi'u teilwra)<br>• Taith Dreftadaeth Dilyn Camre |
| Y farchnad adeiladu timau/cyfarfodydd bach a chanolig | Gellid teilwra'r chwe phrofiad i ateb anghenion y farchnad hon trwy baru profiadau â llety a mannau cyfarfod addas. |

Bydd yr ardaloedd daearyddol a dargedir trwy'r ymgyrch yn cynnwys:

- Coridor yr M4 i Lundain - mae Castell-nedd Port Talbot yn gyrchfan lled gyfarwydd i bobl o'r ardal hon (yn enwedig ymhlith pobl sy'n chwilio am antur cyn magu teulu) o ganlyniad i broffil Parc Fforest Afan fel cyrchfan beicio mynydd.
- De-orllewin Lloegr - yn enwedig yr ardaloedd o gwmpas Caerfaddon a Bryste er mwyn manteisio ar daith nad yw ond 1.5/2 awr.
- Canolbarth Lloegr - er mwyn manteisio eto ar hwylustod mynediad a phobl sy'n gyfarwydd â rhanbarth De Cymru.
- Cymru - gweler uchod, ond er mwyn annog twf yn y farchnad gwyliau byr yn arbennig.

## 4.2 Gweithgareddau'r Ymgyrch

Mae rhaglen y prosiect yn cynnwys yr elfennau canlynol:

1. Ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus - gan gynnwys sicrhau ymweliadau gan y wasg neu flogwyr teithio
2. Ymgyrch ar-lein/ddigidol/cyfryngau cymdeithasol sy’n targedu marchnadoedd allweddol
3. Ymgyrch teithiau grŵp/corfforaethol sy'n targedu trefnwyr teithiau fel cwmnïau gwyliau.
4. Chwe fideo hyrwyddo (un yr un ar gyfer pob profiad)
5. Ffotograffau i'w defnyddio wrth roi'r ymgyrch ar waith
6. Gwaith dylunio graffig ar gyfer yr ymgyrch, gan gynnwys dylunio deunyddiau papur/digidol at ddefnydd y clystyrau cynnyrch

7. Ysgrifennu copi/cyfieithu
8. Comisiynu rheolwr prosiect a hwyluso gyda rhanddeiliaid.
9. Datblygu chwe chynnyrch y gellir eu neilltuo ymlaen llaw ar y cyd â chlystyrau diwydiant - gan gynnwys hyfforddiant heb ei achredu.
10. Rhoi cyngor cyfreithiol i'r clystyrau cynnyrch ynghylch Rheoliadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018 ac ysgrifennu achos busnes er mwyn rhannu gwybodaeth â rhanddeiliaid ehangach ym maes twristiaeth am ddulliau gweithredu'r prosiect.

## 5. Manylion Cyswllt

Os bydd gennych gwestiynau am y ffurflen gais hon, neu am y prosiect ehangach, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Twristiaeth CBSCNPT trwy anfon neges e-bost i tourism@npt.gov.uk neu ffonio 01639 686417.

**Ymgyrch Farchnata Clystyrau Darganfod**

**Ffurflen Gais Clwstwr**

**Nodiadau ar gyfer Ymgeiswyr**

Dylai busnesau neu sefydliadau sydd â diddordeb mewn darparu un o'r profiadau isod lenwi'r ffurflen gais hon.

Dylid dewis un profiad yn unig ar bob ffurflen gais.

Os oes gan eich clwstwr ddiddordeb mewn darparu mwy nag un profiad, llanwch ffurflen unigol ar gyfer pob profiad os gwelwch yn dda.

Cyn mynd ati i lenwi'r ffurflen gais, rhaid sicrhau cydsyniad pob busnes/sefydliad a fydd yn rhan o'r clwstwr.

Bydd angen i gynrychiolwyr pob busnes/sefydliad sy'n rhan o'r clwstwr lofnodi adran y datganiad ar y ffurflen hon.

1. **Nodwch pa brofiad yr hoffai eich clwstwr ei ddarparu (ticiwch un blwch yn unig);**

| **Profiad** | ✓ | | **Profiad** | ✓ |
|---|---|---|---|---|
| Profiad Antur Awyr Agored y Cymoedd | | | Profiad Fel y Dur - Port Talbot | |
| Profiad Lle i Feicio - Parc Fforest Afan | | | Profiad Dilyn Camre | |
| Taith Antur Beicio Mynydd i Deuluoedd (Dechreuwyr) - Parc Fforest Afan | | | Taith Dreftadaeth Parc Margam | |

2. **Disgrifiwch pa wasanaethau bydd eich clwstwr yn eu cynnig i ymwelwyr fel rhan o'r ymgyrch. Dylai'r adran hon ddangos cysylltiadau clir â disgrifiadau'r profiadau sydd i'w gweld ar dudalennau 2 a 3 o'r ddogfen hon.**

| |
|---|
| |

**3. Darparwch y manylion canlynol ar gyfer pob busnes/sefydliad a fydd yn rhan o'ch clwstwr.**

| **Manylion y busnes/sefydliad gan gynnwys y canlynol:**<br>Enw'r Busnes/Sefydliad:<br>Enw Cyswllt:<br>Cyfeiriad e-bost<br>Rhif Ffôn:<br>Cyfeiriad Gwefan: | **Disgrifiwch y gwasanaethau y bydd y busnes/sefydliad hwn yn eu darparu fel rhan o'r clwstwr a'r profiad sydd ganddynt o ddarparu'r gwasanaethau hynny hyd yn hyn.** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

| **Manylion y busnes/sefydliad gan gynnwys y canlynol:**<br>Enw'r Busnes/Sefydliad:<br>Enw Cyswllt:<br>Cyfeiriad e-bost<br>Rhif Ffôn:<br>Cyfeiriad Gwefan: | **Disgrifiwch y gwasanaethau y bydd y busnes/sefydliad hwn yn eu darparu fel rhan o'r clwstwr a'r profiad sydd ganddynt o ddarparu'r gwasanaethau hynny hyd yn hyn.** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| **Cewch ysgrifennu ar ddalen arall os bydd angen.** | |

4. **Pwy fydd y sefydliad/busnes arweiniol a fydd yn cydlynu archebion yn y clwstwr?**

| |
|---|
| |

5. **Rhestrwch unrhyw achrediadau (h.y. gradd sêr, achrediad gan gorff proffesiynol neu gorff chwaraeon) sydd gan yr aelodau o'r clwstwr. Rhestrwch bob aelod o'r clwstwr, gan nodi'r achrediadau sydd ganddynt.**

| |
|---|
| |

**6. Os gwelir yn sydyn na fydd lle ar gael yn un o'r busnesau/sefydliadau yn y clwstwr, esboniwch pa gynlluniau wrth gefn fydd ar waith gennych i sicrhau na fydd archebion a ysgogir gan yr ymgyrch yn cael eu colli?**

| |
|---|
| |

**7. Sut gall yr aelodau o'ch clwstwr helpu i hyrwyddo'r profiadau/ymgyrch fel rhan o'ch gwaith marchnata eich hun?**

| |
|---|
| |

8. **A yw pob aelod o'ch clwstwr yn weithredol ar y cyfryngau cymdeithasol?**
   **Os nad ydynt, a yw'r aelodau perthnasol o'r clwstwr wedi ymrwymo i agor cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hwyluso hyrwyddo'u busnes a'i ran yn yr ymgyrch?**

9. **A oes gan bob aelod o'ch clwstwr wefan benodedig â'i chyfeiriad gwe ei hun ar gyfer eu busnes (h.y. nid rhestriad yn unig ar wefannau eraill fel AirBnB)?**
   **Os nad oes gwefan ganddynt, a yw'r aelodau perthnasol o'r clwstwr wedi ymrwymo i greu gwefan er mwyn hwyluso archebion fel rhan o'r ymgyrch?**

**10. Caiff archebion eu cyfeirio'n uniongyrchol i'r clystyrau cynnyrch o wefan yr ymgyrch. Cadarnhewch sut bydd eich clwstwr yn cofnodi ac yn cydlynu archebion.**

*Nodwch y bydd CBSCNPT yn gofyn am gyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cydymffurfio â Rheoliadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018. O dan rai amgylchiadau, gall fod angen polisïau a/neu drwyddedau ychwanegol ar aelodau'r clwstwr er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau.*

| |
|---|
| |

**11. Gofynnir i chi gadarnhau bod y dogfennau angenrheidiol canlynol gan bob aelod o'ch clwstwr. Gall CBSCNPT ofyn am gopïau o'r gwaith papur a restrir isod.**

| **Enw'r Busnes/Sefydliad** | **Ticiwch os gwelwch yn dda** | | |
|---|---|---|---|
| | Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus | Asesiadau Risg Cyfredol | Datganiadau Mynediad |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**12. Rhestrwch isod unrhyw wybodaeth berthnasol arall rydych am ei chynnwys gyda'ch cais.**

## 13. Datganiad

Os dewisir ein clwstwr ac os yw'r cyngor cyfreithiol a geisir yn nodi bod gofyn cael yswiriant/trwyddedau ychwanegol er mwyn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018, bydd aelodau'r clwstwr yn sicrhau bod y gofynion perthnasol wedi'u bodloni cyn y gall yr ymgyrch hyrwyddo'r profiad a gynigir gan y clwstwr hwn.

Er mwyn monitro a gwerthuso llwyddiant yr ymgyrch a darparu tystiolaeth o allbynnau'r prosiect, mae aelodau'r clwstwr yn cytuno i ddarparu data dienw ynghylch yr archebion a dderbyniwyd gan bob aelod o'r clwstwr yn 2018, 2019 a 2020.

Mae gan bob aelod o'r clwstwr y caniatâd perthnasol i weithio yn y lleoliadau a gynigiwyd neu byddant yn sicrhau bod y caniatâd perthnasol ganddynt.

Bydd yr ymgyrch yn croesawu nifer bach o gwmnïau gwyliau, blogwyr a newyddiadurwyr teithio i'r ardal er mwyn hyrwyddo'r profiadau sy'n rhan o'r ymgyrch. Bydd pob aelod o'ch clwstwr yn fodlon ystyried darparu ar gyfer yr ymweliadau hyn yn ddi-dâl.

Bydd yr holl adnoddau, gan gynnwys ffotograffau, fideos a llenyddiaeth ac ati a gynhyrchir trwy'r ymgyrch yn eiddo i CBSCNPT. Mae CBSCNPT yn rhoi caniatâd i aelodau'r clwstwr ddefnyddio/gael mynediad i'r adnoddau hyn, fodd bynnag mae CBSCNPT yn cadw'r hawl i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl os bydd angen.

Mae'n bosibl y caiff yr wybodaeth a ddarparwch ei rhannu ag adrannau eraill CBSCNPT ac asiantaethau allanol er mwyn asesu'r cais, derbyn cymeradwyaeth gyllido a rheoli'r ymgyrch farchnata.

Mae pob aelod o'r clwstwr yn deall y gall CBS Castell-nedd Port Talbot, os yw'r cais yn llwyddiannus, roi cyhoeddusrwydd i fanylion y prosiect mewn datganiadau i'r wasg, astudiaethau achos, ac ati a gellir gofyn i aelodau'r clwstwr ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar ffurf dyfyniad, hanes y busnes a lluniau.

Mae pob aelod o'r clwstwr yn datgan bod yr wybodaeth a ddarparwyd ganddynt ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn a bod gan bob aelod unigol bŵer/awdurdod llawn i weithredu ar ran eu busnesau.

Deallaf y prosesir y data yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Twristiaeth CBS Castell-nedd Port Talbot. Darperir copi papur ohono ar gais.

**Llofnodwch dros y dudalen os gwelwch yn dda (Tudalen 17)**

| Llofnod | Enw | Y Busnes/Sefydliad a Gynrychiolir | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Dylid anfon copi papur o'ch ffurflen gais wedi'i llofnodi at y canlynol: Karleigh Davies, Rheolwr Rheoli Cyrchfannau a Marchnata, Adfywio a Datblygu Economaidd, CBSCNPT, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan, SA112GG **i gyrraedd erbyn 12pm ddydd Llun 4 Tachwedd 2019.**